

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 22/10/20 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol: Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes
(Cadeirydd), D.L.Jones, K.Jones, E.Lovgreen, R.Thomas

1.Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr M.Sarnacki, K.Richards

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Sul y Cofio

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar Sul y Cofio. Cyfeiriodd at y rhestr waith ar gyfer Sul y Cofio oedd wedi ei rannu efo'r rhaglen. Oherwydd Covid-19 roedd y gwasanaeth ar y Maes wedi ei ganslo. Nodwyd bod gymaint o bethau wedi newid ers i'r rhaglen fynd allan, fel nad oedd pwrpas mynd trwy'r rhestr.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod adroddiad ar Sul y Cofio yn mynd i gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Dachwedd, ac aeth dros y prif bwyntiau yn yr adroddiad hwnnw.
- (2) Y bydd gwasanaeth urddasol yn cael ei ffilmio gan Owain Llŷr ar y 4ydd o Dachwedd, gan gadw o fewn rheolau Llywodraeth y Cynulliad o ran Covid-19, a bydd hwnnw yn cael ei roi ar dudalen Facebook y Cyngor Tref.

Gofynnwyd os oedd yn bosib i Gyngor Gwynedd roi datganiad allan hefyd o ran pam y bu i'r Gwasanaeth Sul y Cofio ar y Maes gael ei ganslo.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

5. Nadolig 2020

Dosbarthwyd rhestr waith ar gyfer gweithgareddau Nadolig y Cyngor efo'r rhaglen. Nodwyd bod gymaint o bethau wedi newid ers i'r rhaglen fynd allan, fel nad oedd pwrpas mynd trwy'r rhestr fesul pwynt.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu cefnogi ehangu defnydd y Sgrîn Fawr eleni, boed am ddau benwythnos neu am wythnos ar ei hyd.
- (2) Yn y Pwyllgor Cyllid, ar yr 20fed o Hydref, cafwyd trafodaeth os oedd yn ddoeth llogi Sgrîn Fawr o gwbl eleni, yn sgîl y sefyllfa efo Covid-19.
- (3) Bod y Pwyllgor Cyllid wedi penderfynu gohirio gwneud unrhyw benderfyniad hyd nes y cyfarfod llawn o'r Cyngor ar y 3ydd o Dachwedd.

Cafwyd trafodaeth ar y Sgrîn Fawr.

Penderfynwyd:

- (1) **Argymhell na ddylid llogi Sgrîn Fawr eleni, oherwydd y sefyllfa gyda Covid-19, ac y byddai'n denu pobl i'r Maes.**
- (2) **Yn lle Sgrîn Fawr dylid cael sustem sain ar y Maes yn chwarae Carolau, ac y dylid gofyn i'r Clerc siarad efo Siop Na-Nog, gan fod sustem sain ganddynt hwy.**
- (3) **Gofyn i'r Clerc siarad efo Michael Lambert Jones o ran trefnu sustem sain ar y Maes.**
- (4) **Gofyn i'r Clerc holi Cwmni Da os oedd ganddynt ddeunydd gan gorau ysgolion ac yn y blaen y gellid ei ddefnyddio.**
- (5) **O ran cystadleuaeth posteri ysgolion, y dylid anfon gwybodaeth i ysgolion yn fuan ar ôl Hanner Tymor, a rhannu gwybodaeth ar Facebook.**
- (6) **Mai testun y gystadleuaeth posteri ddylai fod "Hyrwyddo Siopau Lleol", ac y dylid rhoi posteri yn hysbysebu'r gystadleuaeth mewn ffenestri siopau lleol.**
- (7) **Y dylid ystyried llenwi ffenest "Poundstretchers" gyda lluniau safonol Nadoligaidd gan ffotograffwyr lleol.**
- (8) **Y dylid cysylltu efo Frongoch o ran cael Coeden Nadolig fawr ar Turf Square.**
- (9) **Y dylid edrych ar gael coed Nadolig bychan ar bolion fflagiau tu allan i siopau.**
- (10) **Y dylid edrych ar gael peiriant eira ar y Maes.**

6.Cystadleuaeth Garddio

- (a) Cynhaliwyd trafodaeth yn rhoi adborth ar y Gystadleuaeth Garddio eleni.
- (b) Trafodwyd syniadau ar gyfer Cystadleuaeth Garddio 2021.

Penderfynwyd y dylai'r Cyngorwyr E.R.Hughes, M. Sarnacki, ynghyd â'r Clerc a'r Dirprwy Clerc, ddod at ei gilydd er mwyn trafod syniadau o ran ail-wampio'r Gystadleuaeth Garddio ar gyfer 2021.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.35 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____